POLISI GWAITH CARTREF

Egwyddorion

Ystyriwn waith cartref i fod yn rhan o'r berthynas agos sy'n cael ei feithrin rhwng y rhieni a'r ysgol er budd datblygiad cyflawn pob disgybl beth bynnag ei allu.

Yn gyffredinol

- Ar ddechrau bob tymor bydd pob athro/athrawes yn rhannu cynllun trawsgwricwlaidd bras gyda'r rhieni er mwyn egluro'r hyn fydd eu plentyn yn ei ddysgu yn ystod y tymor hwnnw. Caiff y rhieni gyfle os y mynnant, i drefnu ymweliadau teuluol i fannau arbennig, i ddarllen llyfrau priodol gyda'u plant, i gasglu gwrthrychau gyda'i gilydd ac ati yn eu hamser eu hunain a fydd yn atgyfnerthu, ymestyn a hybu diddordeb y plant ymhellach.
- Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan oedolion neu waith holi a darganfod ar ran y plant. Gofynnwn am gefnogaeth a chydweithrediad y rhieni er mwyn sicrhau fod y plant yn canfod y wybodaeth berthnasol.
- O dro i dro fe ofynnir i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu unrhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Efallai y gofynnir i blentyn disglair i wneud gwaith ymchwil ar dobig arbennig. Mewn achosion fel hyn gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith.

Darllen

Mae cynlluniau darllen yn weithredol yn yr ysgolion.

- Yn y Cyfnod Sylfaen, gall y plant fynd a chardiau fflach gyda llythrennau neu eiriau arnynt adref a phan maent yn barod, bydd y plant yn benthyca llyfr stori i'w ddarllen gyda'u rhieni yn gyson. Bydd y llyfryn 'Fy Nghofnod Darllen' yn cael ei anfon gartref gyda'r llyfr darllen er mwyn i rieni gofnodi sylwadau. Bydd y llyfryn yn cael ei ddychwelyd gyda'r llyfr darllen.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2 bydd cyfle i'r plant fenthyca llyfrau Cymraeg a Saesneg bob yn ail wythnos. Bydd y llyfryn 'Fy Nghofnod Darllen' yn cael ei anfon gartref gyda'r llyfr darllen er mwyn i rieni gofnodi sylwadau. Bydd y llyfryn yn cael ei ddychwelyd gyda'r llyfr darllen.

Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd

Cyfnod Sylfaen:

Meithrin a Derbyn	Ffurfio llythrennau a/neu rifau
	Cynllun darllen – athrawon a rhieni yn rhoi sylwadau yn y llyfr Cyswllt Cartref. Gwaith llythrennau a / neu llyfrau darllen, yn wythnosol
	Gosodir tasg cyswllt cartref-ysgol yn achlysurol sy'n annog y rhieni i weithio ochr yn ochr â'r plant.
Blwyddyn 1 a 2	Cynllun darllen – athrawon a rhieni yn rhoi sylwadau yn y llyfr Cyswllt Cartref. Bydd llyfrau darllen yn mynd adref yn wythnosol
	Rhoddir tasgau llythrennedd neu rifedd sydd yn adlewyrchu, cefnogi a datblygu gwaith y dosbarth
	Dysgu ar y cof (yn achlysurol).
	Gosodir tasg cyswllt cartref-ysgol yn achlysurol sy'n annog y rhieni i weithio ochr yn ochr â'r plant.
Cyfnod Allweddol 2:	Cynllun darllen – Anfonir llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg adref am yn ail. Bydd y plant yn cofnodi teitlau'r llyfrau a disgwylir i'r rhieni roi sylwadau yn y llyfr Cyswllt Cartref ac yna bydd yr athrawon yn arwyddo 'r llyfrau
	Rhoddir un darn o waith cartref yn wythnosol. Sicrheir bod y gwaith wedi ei gynllunio i adlewyrchu gwaith y dosbarth er mwyn datblygu dysgu'r disgyblion.
	Dysgu ar y cof (yn achlysurol).
	Gosodir tasg cyswllt cartref-ysgol yn achlysurol sy'n annog y rhieni i weithio ochr yn ochr â'r plant.

Bydd y cyfarfwyddiadau i rieni yn ddwyieithog fel eu bod yn gallu helpu eu plant os oes angen.

Mae'r amser a roddir i gwblhau tasg yn ddibynnol ar y dasg, ond yn gyffredinol rhoddir penwythnos a diwrnod i'r plant gwblhau'r dasg fel bod digon o amser i'r athrawon i farcio'r gwaith a gosod gwaith yr wythnos ganlynol.

Caiff y gwaith ei farcio gan yr athrawon a byddant yn rhoi adborth i'r disgyblion, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Gofynnwn am gefnogaeth y rhieni i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei osod yn cael ei gyflawni mewn pryd.

HOMEWORK POLICY

Principles

We consider homework to be part of the close relationship fostered between parents and the school for the benefit of every pupil's development whatever their ability.

In general

- At the beginning of every term teachers will provide a general cross curricular plan to parents explaining what their child will learn during that term. Parents will then have the opportunity if they wish, to plan family visits to specific places, to read appropriate books with their children, to gather research material together in their own time etc. which will further increase, extend and encourage their children's interest.
- Occasionally, a particular activity might need information from an adult or might involve a process of interviewing and research. We ask for the co-operation and support of parents in such instances to ensure that the child is given the necessary information.
- Sometimes it is felt that a child might benefit from additional work in order to overcome a particular weakness or if he/she needs to concentrate on a specific aspect of the work. It might also be the case that an able child might benefit from some individual investigative work. In such cases we ask for the full support of the home in encouraging the child to complete this work.

Reading

Reading schemes are operational in the schools.

- In the Foundation Phase, children have homework to improve letter formation and phonics, and when ready, children will borrow a story book to read at home with the parent on a regular basis. A booklet 'My Reading Record' will accompany the book to record comments, which is then returned with the book.
- In Key Stage 2 the children will borrow a Welsh and English book on alternate weeks. A booklet 'My Reading Record' will accompany the book to record parent's comments, which is then returned with the book.

Homework is set on a regular basis

Foundation Phase

Nursery and Reception	Letter and/or number formation
	Reading scheme – parents and teachers write comments in the booklet 'My Reading Record'. Work on specific letters and / or reading books on a weekly basis.
	A home-school link task will be set occasionally to encourage parents and pupils to work together.
Years 1 and 2	Reading scheme – parents and teachers write comments in the booklet 'My Reading Record'. Books will be sent home on a weekly basis.
	Literacy or numeracy tasks will be set to support and develop classroom tasks
	Learning by memory (occasionally)
	A home-school link task will be set occasionally to encourage parents and pupils to work together.
Key Stage 2	Reading scheme – Welsh and English books will be sent home alternately along with a booklet – 'My Reading Record'. Children will record their books and the parents need to record their comments and the teachers will sign the books
	A homework task will be set every week. The work set will reinforce the teaching from the classroom and will be specifically planned to enhance the children's learning.
	Learning by memory (occasionally)
	A home-school link task will be set occasionally to encourage parents and pupils to work together.

Instructions accompanying any homework will be bilingual so that parents are able to help their child if needed.

The time given to complete a task depends on the task set, but generaly a weekend and a day is given so that the children have enough time to complete the work and the teachers have enough time to mark the work and set work for the following week.

The work will be marked by the teacher and they will give feedback either verbally or in writing to the children.

We ask for the parents' support to ensure that the work set is completed on time.